

Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-arth Community Council

11eg Ionawr 2024 / 11th January 2024

Festri Tabernacle Vestry, Pencader

Is-Bwyllgor Cyllid / Finance Sub-Committee

7.00 yh / pm

Presennol / Present: M. Griffiths, H. Lewis, R. Thomas. A. Evans (Clerc/Clerk)

Ymddiheuriadau / Apologies: D. Davies, A. Davies

1. **Cofnodion Cyfarfod 12ed Hydref** – Derbyniwyd fel cofnodion cywir yng nghyfarfod llawn y Cyngor ar 16eg Hydref., 2023.
Minutes of Meeting held 12th October – Accepted as an accurate record at Full Council Meeting held On 16th October, 2023.
Cynigiwyd / Proposed: A. Davies; Eiliwyd/Seconded: R. Thomas (16.10.2023)
2. **Derbyn a thrafod y Fantolen Ariannol hyd at 31ain Rhagfyr, 2023** - Roedd H.Lewis wedi paratoi'r fantolen ariannol hyd at ddiwedd Mis Rhagfyr 2023, h.y. adroddiad am drydedd chwarter y flwyddyn ariannol. Trafodwyd yr adroddiad a nodwyd gwerthfawrogiad pawb am yr holl waith manwl a gyflwynwyd
To receive and discuss the Financial Statement up to 31st December, 2023 – H. Lewis had prepared the financial statement up to 31st December 2023, i.e. the report for the third quarter of the current financial year. This was discussed and all present wished to note their appreciation of the detail presented.
3. **Materion yn Codi / Matters Arising** –
 - (i) Roedd £29421.65 (65.38%) eisoes wedi ei wario. Nodwyd bod rhai taliadau blynyddol, e.e. goleuadau heb eu talu hyd yn hyn, a byddai hynny yn cymryd y gwariant i tua 75%.
Expenditure to 31.12.2023 = £29421.65 (65.38%). It was noted that some annual payments had not been debited to date, this would take expenditure to approximately 75%.
 - (ii) Penderfynwyd symud arian o adrannau lle roedd tan-wariant i adrannau lle y rhagwelir gor-wariant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Bydd mantolen ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor llawn yn y cyfarfod nesaf ar 15ed Ionawr.
It was agreed to vire funds from areas showing an underspend to those where an overspend was projected by the end of the current financial year. A revised budget report will be presented to the Full Council Meeting on 15th January.
 - (iii) Nodwyd ein bod eisoes wedi cytuno yng nghyfarfod 12ed Hydref 2023, ar yr angen i lunio amserlen er mwyn sicrhau bod yr holl faterion sydd wedi ei nodi yn yr Asesiad Risg Ariannol yn cael eu trafod fel sydd wedi ei nodi, e.e. bob chwarter, hanner blwyddyn, ac ati. Mae hyn ar waith yn bresennol.
It was noted it had been agreed at the meeting held on 12th October 2023, that a timetable be devised to ensure all matters noted in the Financial Risk Assessment document were dealt with at the appropriate time, e.g. quarterly, half-yearly, annually, etc. This is currently ongoing.
 - (iv) Ceisiadau am nawdd – Fel y cytunwyd yng nghyfarfod llawn y Cyngor ar 16eg Hydref, 2023, mae ffurflen gais yn cael eu rhoi i unrhyw fudiad sydd bellach yn gofyn am gymorth ariannol.
Requests for financial assistance – As agreed at a meeting of the Full Council on 16th October, 2023, all requests for financial assistance are now made via the application form provided.

4. Precept 2024/25 – Yn dilyn trafodaeth ac ystyriaeth fanwl i sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor, er mwyn cyflawni'r prosiectau sydd eisoes wedi eu clustnodi, bydd angen gofyn am £55000 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-2025. Trafodir hyn ymhellach yng nghyfarfod llawn y Cyngor ar 15ed Ionawr.
Following much discussion and deliberation, to enable the Council accomplish projects currently earmarked, it is anticipated that a precept of £55000 will be required. This will be further discussed at the Full Council Meeting on 15th January.

5. Newid y Cyfrif Banc / Transfer of Bank Account – Adroddwyd gan y Clerc nad oedd unrhyw ddatblygiadau pellach hyd yn hyn. Gan bod y mater yma wedi bod ar waith ers nifer o fisoedd, gofynnwyd i ymholiadau pellach gael eu gwneud.
The Clerk reported that no further progress had been made to date. As this has been ongoing for a number of months, it was requested that the matter be pursued.

6. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – Dyddiad i'w gytuno ar gyfer Mis Ebrill 2024 cyn dyddiad cyfarfod llawn y Cyngor.
Date of Next Meeting – Date to be agreed for meeting to be held during April 2024 on a date prior to the meeting of the full Council.

Gorffenwyd / Ended: 8.35 y.h. / p.m.
